

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU GRŴP CYNEFINOEDD TIR FFERM

Cyflwyniad

Mae'r cynefin grŵp hwn yn cynnwys gwrychoedd, mylon caeau ŷd a pherllannau traddodiadol.


Mae tirwedd amaethyddol Sir Gaerfyrddin yn un o'r nodweddion sy'n diffinio'r sir.

Mae **gwrychoedd** cyforiog o rywogaethau a choed aeddfed ynddynt yn nodwedd

hanesyddol pwysig o'r dirwedd. Gallant fod yn gynefinoedd pwysig i ieir bach yr haf,

gwyfynod, adar a mamaliaid bach. Mae'n

ymddangos mai gorllewin Cymru (Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin) yw'r rhan gyfoethocaf o Gymru o ran gwrychoedd hynafol a/neu gyforiog o rywogaethau.



Crëwyd rhai gwrychoedd pan amgaewyd tir tua diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; mae eraill yn llawer hŷn, wedi'u creu efallai o goetiroedd wrth i'r rhain gael eu clirio ar gyfer amaethyddiaeth. Mae rhai nodweddion anarferol, fel gwrychoedd tresi aur canol/gogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin neu'r gwrychoedd llwyfenni Lloegr sydd fel pe baent yn adennill tir ar y gwastadeddau arfordirol.

Mae cyflwr gwrychoedd y sir ar hyn o bryd yn amrywiol iawn. Mae llawer wedi cael eu hadfer yn y blynyddoedd diwethaf drwy'r gwahanol gynlluniau amaeth-amgylchedd, ond mae eraill yn dal i ddirywio am nad ydynt yn cael eu rheoli – mae hyn wedi achosi mwy o fylchau ynddynt, gostyngiad o ran uchder, colli'r fflora llawr daear sy'n gysylltiedig â gwrychoedd a chynnydd ym mhresenoldeb rhywogaethau egsotig.

Ungnwd yw amaethyddiaeth â'r fodern at ei gilydd heb fawr ddim i'w gynnig i fywyd gwyllt. Yn y gorffennol, cyn y defnydd dwys o gemegolion a'r mecaneiddio cynyddol, roedd blodau gwyllt yn tyfu ymysg y cnydau ac yn cynnig mwy o botensial i rywogaethau eraill fel bwyd a chysgod. Roedd **ymylon caeau ŷd** yn arbennig o bwysig gan fod y mannau llai cynhyrchiol hyn yn lloches bwysig i famaliaid bach, yn enwedig pan gâi cnwd y cae ei gynaeafu. Gall yr ymylon mwy naturiol hyn fod o fudd i'r fferm hefyd, yn ogystal ag annog pryfed fel y fuwch goch gota, sy'n ysglyfaethu rhai plâu cnydau.

Ar hyn o bryd, nid oes fawr ddim cynefin â'r o werth yn dal yn y sir – mewn cyferbyniad â'r gorffennol pan oedd gan bob cymuned ffermio leol ei chyfran o gnydau grawn a gwraidd. Mae'r dirywiad hwn mewn ffermio â'r ynghyd â diflaniad llawer o'r rhywogaethau chwyn cysylltiol a'r gostyngiad yn y bwyd i bryfed wedi cyfrannu at ddirywiad enfawr golfan y mynydd (ac adar eraill sy'n bwyta hadau fel y bras melyn a'r llinos). Lle mae ardaloedd â'r yn dal i fodoli (yn aml dim ond dau neu dri o gaeau ar fferm), gallant olygu bod grŵp penodol o blanhigion unflwydd, fel glas yr ŷd a dinodd unflwydd, yn ogystal â mwsoglau arbenigol, yn ymddangos yno.

Caiff **perllannau traddodiadol** eu rheoli mewn ffordd nad yw'n ddwys, heb fawr o ddefnydd o blaleiddiaid a gwrtaith anorganig. Mae'r coed yn byw'n gymharol hir ac fel arfer caiff y borfa o dan y coed ei phori gan wartheg neu ddefaid neu caiff ei thorri ar gyfer gwair.

Fel arfer ystyrir bod pump neu ragor o goed mewn perllan a bod ymyl brigdyfiant y coed o fewn 20m i'w gilydd.

Mae coed perllan yn gallu bod yn dda iawn fel cynefin i gennau ac infertebratau prin ac maen nhw'n rhan bwysig o'n treftadaeth a'n tirwedd. Maen nhw'n aml wedi bod ar yr un darn o dir am ganrifoedd.

Mae perllannau traddodiadol yn brin yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhai sy'n weddill yn aml mewn cyflwr gwael ac mae angen plannu coed newydd i sicrhau bod y cynefin yn parhau'n hyfyw. Mae angen rhagor o wybodaeth am hyd a lled, math a chyflwr y perllannau traddodiadol yn y sir.

Mae'n ymddangos bod Dyffryn Tywi wedi bod yn bwysig yn hanesyddol o ran perllannau. Mae ymchwil yn dangos bod yr ardal hon yn adnabyddus unwaith am ei blodau yn y gwanwyn a dangosir dros 100 o berllannau rhwng Llanymddyfri a Llandeilo ar fap Arolwg Ordnans 1905. Mae tri amrywiaeth hanesyddol o goeden afalau yn lleol i Ddinefwr yn unig: Margaret Nicholas, Afal Pig yr Wydd a Thin Wydd. Caiff Teilo Sant, yr enwyd y dref ar ei ôl, ei alw'n nawddsant afalau.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi rhoi inni nifer o amrywiaethau brodorol o afalau na wyddem amdanynt cynt.

Manteision cynefinoedd tir fferm:

- Amaethyddiaeth – ffrwythau, llysiau, grawn, cig, cyflogaeth.
- Diwylliant – tirweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi'n lleol.
- Gwrychoedd yn gweithredu fel atalwyr gwynt, yn helpu i atal colli pridd, lleihau llifogydd a chysylltu cynefinoedd.
- Mae ymylon caeau â'r yn cynnal pryfed sy'n rheoli plâu yn naturiol a pheillyddion.
- Bwyd gwyllt – mwyar duon, cnau, anifeiliaid hela.

Pam mae cynefinoedd tir fferm yn newid (o adroddiad *State of Nature*: www.rspb.org.uk/stateofnature)?

- Arferion ffermio'n newid.
- Colli cynefinoedd.
- Defnyddio cemegolion.
- Darnio cynefinoedd.

Datganiad o weledigaeth ac amcanion

Mae'r cynefinoedd tir fferm hyn yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau, rhai'n brin ac anghyffredin erbyn hyn, ac maen nhw'n cyfrannu at gymeriad tirwedd y sir. Y weledigaeth i'r cynllun hwn yw cynnal, adfer ac ehangu'r cynefinoedd hyn yn y sir, ynghyd â rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Mae pwysigrwydd diwylliannol gwrychoedd a pherllannau hefyd yn rhoi cyfle i weithio gyda chymunedau i edrych ar arwyddocâd hanesyddol y cynefinoedd hyn o fewn cymuned. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

- FAR1** Rheoli'r cynefinoedd tir fferm hyn yn Sir Gaerfyrddin mewn modd cadarnhaol a'u cysylltu a'u hehangu lle mae hynny'n bosib.
- FAR2** Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gynefinoedd.
- FAR3** Nodi a chofnodi ardaloedd o'r cynefinoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin y rhoddir blaenoriaeth iddynt.
- FAR4** Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein cynefinoedd tir fferm o safbwynt bioamrywiaeth, tirwedd a diwylliant, ac o'r ffordd briodol o'u rheoli

Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth/Ad42 cysylltiol (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgyhwysfawr):

Adar - Llinos, Bras melyn, Gwybedog mannog, Coch y berllan, y Gog, Llwyd y gwrych, Bronfraith, Gwylan y penwaig, Aderyn y to, Petrisen, Drudwen, Cornchwiglen, Cudyll coch.

Mamaliaid – Rhywogaethau o ystlumod (yn cynnwys yr Ystlum lleiaf), Llygoden yr yd, Ffwlbar, Ysgyfarnog, Pathew, Draenog.

Infertebratau - Brithribin brown, Brithribin wen, Teigr y benfelen.

Ymlusgiaid - Llyffant dafadennog, Neidr y gwair.

Planhigion/isblanhigion – Penigan y porfeydd, Dinodd unflwydd, Glas yr yd, y Wenynog, Tegeirian pêr, Mwsogl blewog prin, Pcedfwsogl Portiwgal.

Crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd (TAYO) - ~14 km o wrychoedd wedi'u hadfer yn nyffryn Tywi FAR1
- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd - 10 perllan hanesyddol wedi'u hadfer yn nyffryn Tywi – plannwyd 102 o goed FAR1
- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd – plannwyd 426 o goed gwrych ar 18 safle yn nyffryn Tywi FAR1
- Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd - plannwyd 10 perllan newydd yn nyffryn Tywi - plannwyd 155 o goed FAR1
- Arolwg o berllannau yn y sir – *People's Trust for Endangered Species* FAR3
- Cynhyrchu canllawiau i dirfeddianwyr ar reoli gwrychoedd – Cyngor Sir Caerfyrddin FAR4
- Hyfforddiant plygu gwrychoedd – Canolfan Tywi FAR4
- Fferm Aberdeunant yr YG - 1800m o wrychoedd wedi'u hadfer – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar/Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol FAR1
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - 400 m o wrychoedd wedi'u plygu FAR1
- Gorfodi'r Rheoliadau Gwrychoedd – Cyngor Sir Caerfyrddin

2013

- Cynnal ymweliadau safle â 5 fferm a rhoi cyngor i 5 arall am reoli bywyd gwyllt – Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru FAR4
- Canlyniadau'r arolwg o berllannau traddodiadol wedi eu cyhoeddi – PTES FAR3

- 12 o gynlluniau gwella cynefinoedd ar waith drwy gynllun Tirwedd a Bioamrywiaeth y Cynllun Datblygu Gwledig, gan gynnwys plannu ac adfer cloddiau a phlannu perllannau FAR1
- Trawsleoli cloddiau ar safle datblygu Cyngor Sir Caerfyrddin yng Nghaerfyrddin - Cyngor Sir Caerfyrddin

2014

FAR1

- Plannwyd perth 270 o fetrau o hyd ar safle pwysig iawn i frithribinau brown yn Nyffryn Tywi – Gwarchod Glöynnod Byw / CSC

2015

- Mwy na 1km o glawdd wedi'i osod yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel – WTSWW

FAR1

Gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol

- Annog gweld ffwlbartod – Cyngor Sir Caerfyrddin FAR4
- Annog gweld iâr fach yr haf y Frithribin wen– Cyngor Sir Caerfyrddin FAR4
- Parhau â'r arolwg perllannau – Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin FAR4

Dolenni defnyddiol:

[Hedgelink](#)

[PTES Orchards survey](#)

www.biodiversitywales.org.uk/en-GB/Enclosed-Farmland

www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/farmland



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) yn cynnwys y sefydliadau canlynol: [Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)